

Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Wedi'i ariannu trwy raglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesi a Gwasanaeth Cynghori dan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.



John Ceiriog Jones

Iwerddon

Diffyg Cobalt mewn defaid

2016

1 Cefndir

Ffermwr biff a defaid yng Nghilgoed, Derwen, ble rydym yn ffermio mamogiaid Beulah yn bennaf yn cynhyrchu Defaid Miwl Cymreig sy'n cael eu gwerthu fel ŵyn a hesbinod. Rydym ni'n cneifio ŵyn ym mis Gorffennaf i sicrhau gwell cyfraddau twf ac osgoi defnyddio cynhyrchion sy'n cael eu tywallt er mwyn diogelu rhag cynrhon. Rydw i hefyd yn aseswr gwarant fferm yng Ngogledd Cymru ac mae gen i ddiddordeb cymharu safonau gyda Bord Bia a dysgu mwy gan Origin Green Ireland.

Rydym ni'n ffermio defaid a gwartheg ar fferm ucheldir 250 erw ar fferm glaswelltir yn bennaf, a hefyd yn tyfu 10 erw o swêj yn flynyddol ac yn ail hadu hyd at 20 erw bob blwyddyn i sicrhau cynhyrchiant da o'r borfa. Rydym ni'n profi'r pridd yn y caeau bob 3 blynedd ac yn gwasgaru calch fel bo angen er mwyn sicrhau pH o dros 6. Roedd y fferm wedi cael ei gwella ond rydym ni wedi gweld nad yw'r da byw, yn enwedig ŵyn, yn ffynnu ar wyndonnydd wedi'u gwella gan fod maetholion hanfodol wedi'u cau i mewn e.e. cobalt. Nid yw'r porfeydd ifanc wedi gallu cymryd mwynau a fitaminau o'r pridd i'r borfa sy'n cael ei bori gan y da byw.

7 mlynedd yn ôl, pan nad oedd yr ŵyn i'w gweld yn ffynnu ar swêj, gyda chynnydd pwysau byw isel, cefais gyngor i roi bolws cobalt, copr, seleniwm ac iodid i'r ŵyn, a gwelais ymateb ar unwaith gan eu bod yn ffynnu ac yn magu pwysau heb ddwysfwyd ategol. Dros y 4 blynedd diwethaf, rydym ni wedi bod yn defnyddio Bolysau Mayo Healthcare i gynorthwyo twf a phesgi ein hŵyn. Rydym ni'n defnyddio bolws 6 mis ar gyfer mamogiaid cyn hyrdda, gan roi canlyniadau sganio da a chyfnod ŵyna rhwydd gydag ŵyn bywiog ar enedigaeth.



2 Amserlen

Ar 17 Hydref, gyrrais i faes awyr John Lennon Lerpwl i ddal awyren i Knock ar ochr gorllewinol Iwerddon. Llogais gar o'r maes awyr am fy 5 diwrnod o deithio i ymweld â ffermydd ac arwerthiannau da byw. Cyrhaeddais y gwesty a chwrdd â Kilean, perchennog Mayo Healthcare, i wneud trefniadau ar gyfer ymweliadau fferm. Cefais nifer o gysylltiadau da o fewn Teagasc, Awdurdod Datblygu Amaeth a Bwyd Iwerddon.

Ar 18 Hydref, cefais gyfle i ymweld â ffatri Bolws Mayo Healthcare, a chefais eglurhad trylwyr o bwysigrwydd Cobalt i ddefaid. Dyma'r prif bwyntiau:

- Mae angen i ffermwyr defaid gynyddu lefelau Cobalt ym mhlasma gwaed defaid
- Mae ychwanegion ar lefelau isel gan ddefnyddio drensh yn para hyd at 10 diwrnod yn unig
- Cobalt yw'r prif ffactor o ran cyflwr a phesgi ŵyn sy'n tyfu
- Mae lefelau iodid yn y gwaed hefyd yn bwysig gan ei fod yn cael ei drosi yn Thyrocsin yn y groth ac mae oen/llo sy'n cael ei eni gyda lefelau uchel o Thyrocsin yn anifail llawer cryfach, mwy bywiog a hyfyw.
- Mae copr a seleniwm yn cael ei storio o fewn iau a meinwe'r oen
- Ni ellir storio cobalt ac iodid yng nghorff yr oen
- Mae cobalt yn ddiogel iawn ac mae'n anodd iawn gor-ddosio ŵyn
- Ni fydd ychwanegu 0.6mg o gobalt y dydd yn codi lefelau plasma'r gwaed fel sydd angen ac mae bolws meistr cobalt yn darparu tua 2mg o ychwanegion cobalt y dydd i ddefaid.
- Mae lefelau protein yn y diet hefyd yn bwysig iawn gan fod heintiau yn y rwmen yn arwain at asidosis a diffyg egni. Er mwyn goresgyn y broblem, defnyddiwyd gynnrych o'r enw 'Blast Off'. Y cynnwys Sylfaenol yw propylen glycol ac mae'n gweithredu fel drensh tanwydd roced i hybu iechyd y rwmen unwaith eto.
- Mae halen a dŵr ffres a glân hefyd yn elfennau pwysig yn niet y ddafad
- Bydd rwmen nad yw'n gweithio'n iawn yn arwain at arwyddion amlwg mewn ŵyn megis clustiau cennog, sgald a diffyg cyflwr.

Ar 19 Hydref, cefais ymweld â dwy fferm arbrofol sy'n cael eu rhedeg gan Teagasc gan ganolbwyntio ar gynhyrchiant glaswellt ac ychwanegu mwynau yn gywir gan ddefnyddio bolysau. Yn y prynhawn, cefais ymweld ag wyth fferm laeth, defaid a biff yn ogystal â dau arwerthiant da byw yn Ballinrobe a Tuam, yng nghwmni Leo Forkan, Rheolwr Gwerthiant gyda Mayo Healthcare. Estynnais wahoddiad i Leo ddod i aros gyda mi yng Ngogledd Cymru fel rhan o'r rhaglen gyfnewid. Cefais gyfle hefyd i wneud cysylltiad gwerthfawr gyda John Noonan o Teagasc, sy'n rheolwr/swyddog maes gwybodus iawn. Aeth â mi i weld dau ffermwr defaid brwd sy'n defnyddio bolysau cobalt, a chefais hefyd ymweld â Tom Stanton, arbenigwr Bolws Cobalt sy'n gweithio fel Cyfarwyddwr Technegol yng nghwmni gwyddor anifeiliaid Iomlán. Eglurodd Tom hefyd am bwysigrwydd cobalt mewn systemau cynhyrchu defaid ledled y byd. Yn ystod y prynhawn, cefais ymweld â James Lally ar ei fferm fynydd ble mae'n cadw defaid Mayo Mountain Blackface. Mae'n cadw brid o ddefaid gwydn sy'n addas ar gyfer y mynyddoedd o amgylch Westport.

Bu'n rhaid cychwyn yn gynnar ar yr 21ain gan fy mod yn gyrru ar draws Dulyn i ymweld â Bord Bia i ddysgu mwy am safonau gwarant fferm yn Iwerddon. Rhoddodd Ultan, un o'r aelodau staff yno, drosolwg diddorol o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn Bord Bia. Ynghyd ag Origin Green, maen nhw'n gweithio i hybu cynhyrchiant bwyd o Iwerddon ledled y byd. Hefyd, estynnais wahoddiad i John Noonan o Bord Bia i ymweld â ni yng Ngogledd Cymru. Dychwelais adref gyda'r nos ar ôl 5 diwrnod diddorol.

3 Camau Nesaf

Cyn mynd ar yr ymweliad Cyfnewid i Iwerddon, roedden ni'n cneifio ŵyn ar ddiwedd mis Gorffennaf er mwyn osgoi costau cynnyrch sy'n cael ei dywallt ac i atal ŵyn rhag cael cynrhon. Ar ôl siarad â ffermwyr a chynghorwyd Teagasc yn Iwerddon, nid ydym yn cneifio ŵyn gan fod canlyniadau'n gallu bod yn amrywiol ac mae ŵyn yn ffynnu weithiau ond mae arbrofion eraill wedi cadarnhau fod ŵyn yn dioddef ar ôl cneifio a ddim yn ffynnu.

Y prif bwyntiau a ddysgais yn ystod yr ymweliad oedd pwysigrwydd cobalt mewn systemau cynhyrchu defaid. Yng ngeiriau'r Milfeddyg yn Mayo Healthcare, 'mae defaid yn wynebu llwgu pan fo digon o fwyd ar gael os mae lefelau cobalt yn isel yn y gwaed'.

Ar ôl dychwelyd, rydw i wedi cynghori nifer o ffermwyr defaid ynglŷn â phwysigrwydd cobalt fel y prif ffactor sy'n arwain ac yn dylanwadu ar ffermio defaid yn broffidiol yng Nghymru.

4 Prif negeseuon i'r diwydiant

1. Mae diffyg cobalt mewn defaid yn broblem sylweddol. Nid yw nifer o ffermwyr yng Nghymru'n ymwybodol o ba mor bwysig yw rhoi ychwanegion cobalt, seleniwm ac iodini i ŵyn ar ffurf bolws sy'n rhyddhau'n araf er mwyn gwella'r cyfradd twf. Gellir ychwanegu copr hefyd os nad yw'n cael ei roi i ŵyn Texel neu fath cyfandirol.
2. Neges i Lywodraeth Cymru fyddai'r ffaith fod Llywodraeth Iwerddon yn cynorthwyo ffermwyr drwy Teagasc i ddarparu gwybodaeth ddefnyddio i ffermwyr ynglŷn â chnydau a maeth anifeiliaid ayb, yn debyg i'r cyngor a oedd ar gael gan ADAS yn y gorffennol
3. Mae profi pridd ar ffermydd yn hollbwysig er mwyn canfod statws P a K a pH priddoedd i wella strwythur y pridd a rheolaeth maetholion.
4. Mae grwpiau cydweithredol yn bwysig i ffermwyr Iwerddon gan eu bod yn cynorthwyo i farchnata da byw, mae'r South Mayo Quality Lamb Producers Group yn enghraifft wych o hyn.
5. Ar ôl ymweld ag adeilad swyddfa enfawr yn Nulyn a siarad gyda swyddogion Bord Bia, daeth yn amlwg iawn fod gwarant fferm yn bwysig i ffermwyr da byw Iwerddon gan ei fod yn eu galluogi i allforio cig ledled y byd. Mae hefyd yn rhoi stori dda i'w hadrodd i gwsmeriaid ynglŷn â safonau lles uchel ar ffermydd.
6. Mae Origin Green Ireland hefyd yn bwysig iawn fel pwynt sy'n dangos gwahaniaeth mewn sioeau bwyd, gan roi delwedd werdd i gig a gynhyrchir ar ffermydd yn Iwerddon. Mae'n adnodd marchnata sy'n cael ei adnabod ledled y byd.

Hoffwn ddiolch i Mayo Healthcare, Teagasc a Bord Bia foam y wybodaeth a dderbyniais yn ystod fy nhaith astudio, a'r tri sydd wedi ymweld â mi yng Nghilcoed fel rhan o'r Rhaglen Gyfnewid hon. Yn olaf, diolch yn fawr i Lywodraeth Cymru a swyddogion Cyswllt Ffermio am roi'r cyfle yma i mi ymweld ag Iwerddon.